**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFORDD 1984**
**HYSBYSIAD GWNEUD GORCHYMYN PARHAOL**

**CYNGOR SIR FYNWY**
**GORCHYMYN CYDGRYNHOI RHEOLIADAU RHEOLEIDDIO TRAFFIG, TERFYNAU CYFLYMDER A PHARCIO CYNGOR SIR FYNWY 2019**
**(GORCHYMYN DIWYGIO RHIF 17) 2025**

**DARPARU RHEOLIAD TRAFFIG**
**GORCHYMYN O FEWN GWAHANOL GYMUNEDAU YN SIR FYNWY**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ("y Cyngor") wedi gwneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Ffordd fel a ganlyn:

**EFFAITH Y GORCHYMYN:**

- Cyflwyno terfyn cyflymder o 30mya ar Redbrook Road, yr A466, Trefynwy (10fed Medi 2025)
- Cyflwyno terfyn cyflymder 40mya a 30mya ar yr A472, Y Rhadyr, Brynbuga (21ain Tachwedd 2025)
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 30mya ar y B4233, Yr Hendre (21ain Tachwedd 2025).
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 20mya yng nghyffiniau Cyffordd y B4233/B4347, Rockfield (21ain Tachwedd 2025).
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar y B4233, Trefynwy i Rockfield (21ain Tachwedd 2025).
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar Mitchell Troy Road, Rhaglan (21ain Tachwedd 2025).
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar Staunton Road, yr A4136 (28ain Tachwedd 2025)
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar y B4235, Cas-gwent i Fynydd Bach (28ain Tachwedd 2025)
- Cyflwyno terfynau cyflymder clustogi 30mya ar y B4596, Llancaeo (21ain Tachwedd 2025).
- Cyflwyno terfyn cyflymder 20mya ar Common Road, Llanfihangel Troddi (10fed Medi 2025)
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar Conway Drive, Cas-gwent (21ain Tachwedd 2025).
- Diddymu'r terfyn cyflymder presennol o 20mya ar yr A466, Llaneuddogwy (21ain Tachwedd 2025).
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ar y Lôn o'r B4293 i Park House, Comin Llanddinol (21ain Tachwedd 2025).
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ar Crick Road, Porth Sgiwed (21ain Tachwedd 2025)
- Cyflwyno terfynau cyflymder 30mya a 40mya ar y B4235, Gwernesni (21ain Tachwedd 2025).
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ar yr A466, Tyndyrn (10fed Medi 2025)

O fewn yr ardaloedd a nodwyd ar y cynlluniau, y gellir eu gweld drwy apwyntiad yn Neuadd y Sir, Brynbuga neu ar-lein yn https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/cyngor-sir-fynwy-deddf-rheoleiddio-traffig-ffordd-1984/. Gellir cyrchu'r dudalen we hon hefyd trwy sganio'r cod QR isod.

Disgwylir i'r gorchmynion a nodir uchod ddod i rym mewn modd graddol ar y dyddiadau a bennir o fewn y cromfachau.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw un o'i ddarpariaethau, ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddwyd gan y Ddeddf, neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf neu unrhyw offeryn a wnaed o dan y Ddeddf, caiff y person hwnnw, o fewn chwe wythnos o **9fed Medi 2025** (sef y dyddiad y gwnaed y gorchymyn) gwneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

**Dyddiad: 10fed Medi 2025**

**Carl Touhig**
**Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth**
**Cyngor Sir Fynwy**